

# Briff Prosiect – Comisiynu Lleoliadau mewn Cartrefi Gofal i Bobl Hŷn – Cynghorau Gogledd Cymru a Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr

Blwyddyn archwilio: 2020-21

Dyddiad cyhoeddi: Tachwedd 2020

Cyfeirnod y ddogfen: 1923A2020-21

# Cynnwys

Briff y prosiect	
Cefndir yr adolygiad	3
Diben yr adolygiad	4
Ffocws yr adolygiad	4
Sail ddeddfwriaethol yr adolygiad	5
Dull	5
Prif gwestiynau'r adolygiad	6
Allbwn	8
Amserlen	8
Atodlen gwaith maes	9
Ceisiadau am ddogfennau	13
Cysylltiadau yn Archwilio Cymru	14
Atodiadau	
Atodiad 1 – Hysbysiad Prosesu Teg: Archwilydd Cyffredinol Cymru	15

# Briff y prosiect

## Cefndir yr adolygiad

- 1 Mae pandemig COVID-19 wedi cael effaith ddigynsail ar Wasanaethau Iechyd a Gofal Cymdeithasol wrth iddynt weithio i helpu i gyfyngu ar y feirws ac osgoi lledaeniad i bobl sy'n arbennig o agored i niwed, fel y rhai sy'n oedrannus, neu â phroblemau iechyd sy'n bodoli eisoes. Mae Cyngorau Gogledd Cymru a [Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr](#) (y Bwrdd Iechyd) wedi gweithio'n galed i gynyddu i'r eithaf y capasiti o ran gwelyau mewn ysbytai a chartrefi gofal ac wedi comisiynu ac offeru tri ysbyty enfys newydd i ymdopi â'r cynnydd yn y galw am ofal a thriniaeth. Mae effaith y feirws hwn wedi amlygu'r rôl hollbwysig sydd gan gartrefi gofal trwy gydol y flwyddyn ac yn enwedig pan geir brigau annisgwyl yn y galw.
- 2 Ceir cost i fywyd dynol ac i hyfywedd ariannol cynaliadwy busnesau cartrefi gofal. Bydd cynlluniau busnes y cartrefi hyn yn dibynnu ar isafswm lefel meddiannaeth a gall feirws COVID-19, a ffactorau ehangach eraill, effeithio ar y galw am leoliadau a niferoedd y preswylwyr yn y dyfodol, gan arwain at gau rhai cartrefi.
- 3 Er gwaethaf y pwysau ar gartrefi gofal a ddisgrifiwyd uchod, parhau i dyfu y mae'r galw am y gwasanaethau hyn o blith poblogaeth sy'n heneiddio, gan gynyddu pwysau cyllidebol ar gyrff cyhoeddus. Ceir risg nad yw'r ddarpariaeth mewn cartrefi gofal wedi'i llunio i ateb y galw, megis darpariaeth arbenigol.
- 4 Mae'r data cyhoeddedig diweddaraf gan [StatsCymru](#) yn dangos bod cyngorau Gogledd Cymru wedi gwario tua £66 miliwn yn 2018-19 ar Leoliadau Nyrsio a Lleoliadau Gofal Preswyl, ac mae adroddiadau ariannol y GIG yn dynodi bod Betsi Cadwaladr yn gwario dros £100 miliwn y flwyddyn ar ofal iechyd parhaus. Yn ychwanegol at y costau hyn, mae gan lawer o gynghorau eu darpariaeth gofal preswyl eu hunain.
- 5 Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yn ei gwneud yn ofynnol i gyrff cyhoeddus yng Nghymru feddwl am effaith hirdymor eu penderfyniadau, cydweithio'n well gyda phobl, cymunedau a'i gilydd, ac atal problemau parhaus megis tlodi, anghydraddoldebau iechyd a'r newid yn yr hinsawdd. Mae gan bob un o'r 6 chyngor a'r Bwrdd Iechyd gyfrifoldeb statudol i ateb gofynion a nodir yn y Ddeddf.  
  
Dylai unrhyw ddull strategol i wella gofal nyrsio a phreswyl ateb gofynion Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 (y Ddeddf GCaLI), Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011 a Ddeddf Cydraddoldeb (2010).
- 6 Dan y Ddeddf GCaLI, mae rhwymedigaeth statudol ar gynghorau a byrddau iechyd i sefydlu a chynnal trefniadau cronfeydd cyfunol mewn perthynas â chyflawni eu swyddogaethau o ran cartrefi gofal. Canfu ein gwaith diweddar yng Ngogledd Cymrunad oedd y gronfa gyfun ar gyfer lleoli cartrefi gofal pobl hyn yn rhoi gwerth am arian.
- 7 Fe gyhoeddodd Cydweithredfa Gwella Gwasanaethau Gofal Cymdeithasol a Llesiant Gogledd Cymru [Ddatganiad Siapio'r Farchnad – Cartrefi Gofal i Bobl Hŷn](#)

yng Ngogledd Cymru yn 2018. Roedd yn cynnwys yr hyn y gallai partneriaid ei ddisgwyl yn y dyfodol a'r hyn y byddai ar bartneriaid ei angen gan gartrefi gofal a sut y byddai partneriaid yn cefnogi datblygiadau.

- 8 Mae'r briff prosiect hwn yn nodi pam ein bod yn cynnal yr adolygiad yng Nghynghorau Ynys Môn, Conwy, Sir Ddinbych, Sir y Fflint, Gwynedd a Wrecsam, a Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr, ac yn nodi ei ffocws, dull, allbynnau ac amseriad.

## Diben yr adolygiad

- 9 Yn ein Hasesiadau Sicrwydd a Risg ar gyfer cynghorau Gogledd Cymru fe wnaethom nodi bod mynd ati'n strategol i gomisiynu lleoliadau gofal nyrsio a phreswyl yn risg i gynghorau a'r Bwrdd Iechyd am y rhesymau canlynol:
- lefel uchel o wariant ar y gwasanaethau hyn;
  - codiadau a ragwelir yn niferoedd y bobl hŷn y disgwylir y bydd angen y gwasanaethau hyn arnynt;
  - argaeledd cyfyngedig staff newydd i gefnogi'r gwasanaethau hyn a chystadleuaeth recriwtio gyda darparwyr eraill gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol; a
  - manteision posibl mynd ati'n strategol i gomisiynu ar draws cyrff sector cyhoeddus Gogledd Cymru nad ydynt wedi cael eu cyflawni hyd yma.
- 10 Ers adnabod bod mynd ati'n strategol i gomisiynu lleoliadau gofal nyrsio a phreswyl yn risg, mae COVID-19 wedi amlygu breuder a chapasiti cyfredol y farchnad ofal a'r angen i gynllunio ar gyfer y farchnad a'i rheoli mewn modd strategol.

## Ffocws yr adolygiad

- 11 Byddwn yn defnyddio Datganiad Siapio'r Farchnad – Cartrefi Gofal i Bobl Hŷn yng Ngogledd Cymru a gyhoeddwyd yn 2018 fel man cychwyn ar gyfer yr adolygiad. Fe wnaethom hwyluso gweithdy cwmpasu ar 29 Medi 2020 gyda chynrychiolwyr o'r Cynghorau a'r Bwrdd Iechyd i glywed diweddariad am y cynnydd o ran cyrraedd y nodau strategol ac i oleuo lliw a llun yr adolygiad hwn. Bydd ein hadolygiad yn ystyried y meysydd canlynol:
- addasiadau i'r cynlluniau comisiynu strategol o ganlyniad i COVID-19 i gefnogi cynaliadwyedd cartrefi gofal yn y tymor byr, canolig a hwy;
  - cynaliadwyedd ariannu bwriadau strategol, gan gynnwys effeithiau COVID-19 megis mwy o anghenion gofal ar gyfer cleifion a ryddheir o'r ysbyty, costau uwch sy'n gysylltiedig â Chyfarpar Diogelwch Personol (PPE) ac addasu amgylcheddau cartrefi gofal o ganlyniad i'r pandemig a defnyddio cronfa argyfwng Llywodraeth Cymru i gartrefi gofal;
  - cadernid y data sy'n tanategu'r strategaeth;
  - effaith y strategaeth hon ar strategaethau rhanbarthol a lleol eraill;
  - cynllunio'r gweithlu, er enghraifft yng ngoleuni Brexit a COVID-19;

- i ba raddau y mae Cynghorau a'r Bwrdd Iechyd yn gweithio i leihau'r galw/angen am ofal preswyl megis gyda thai gofal ychwanegol neu becynnau gofal cymunedol integredig;
- trefniadau llywodraethu'r bartneriaeth; a
- rheoli newid a rhaglenni.

12 Bydd yr adolygiad yn ceisio ateb y cwestiwn: **A yw partneriaid yn cydweithio'n effeithiol i ystyried newidiadau demograffig a phwysau allanol eraill o ran mynd ati'n strategol i gomisiynu gofal mewn cartrefi nyrsio a phreswyl?**

## Sail ddeddfwriaethol yr adolygiad

- 13 Mae'r prosiect hwn yn cael ei gyflawni yn unol â'r dyletswyddau a nodir o dan adrannau 17 a 61 o Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004.
- 14 Fe'i cynhelir hefyd i helpu i gyflawni dyletswyddau'r Archwilydd Cyffredinol dan adran 18 Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009 ac i asesu a yw awdurdodau gwella'n cyflawni eu dyletswyddau gwella. Gall hefyd oleuo archwiliad a gynhelir dan adran 15 Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.

## Dull

- 15 Bydd yr adolygiad yn cynnwys cyfweiliadau â swyddogion a chynghorwyr, adolygu dogfennau a bodloni arsylwadau. Rydym hefyd yn rhagweld cynnal gweithdai o bell pan fo angen. Bydd ein dulliau gweithredu yn unol â chynghor y Llywodraeth ar COVID-19 pan fyddwn yn gwneud y gwaith. Er ein bod yn rhagweld y bydd y rhan fwyaf o'r gweithgareddau'n cael eu cynnal o bell.

### Arddangosyn 1: y bobl a ddaeth i'r gweithdy cwmpasu

Mae'r tabl isod yn nodi'r bobl a gymerodd ran yn y Gweithdy Cwmpasu.

Sefydliad	Enw	Teitl
CBS Ynys Môn	Iola Richards	Pennaeth Gwasanaethau Oedolion
Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr	Grace Lewis Parry	Cyfarwyddwr Cynorthwyol Gofal Sylfaenol a Chymunedol
CBS Conwy	Claire Lister	Pennaeth Gwasanaethau Oedolion a Chymunedol Integredig

Sefydliad	Enw	Teitl
CS Ddinbych	Phil Gilroy	Pennaeth Gwasanaethau Cymorth Cymunedol
	Katie Newe	Rheolwr Gwasanaethau – Gwasanaethau Cleientiaid
	Catrin Perry	Tîm Cydweithio Rhanbarthol
CS y Fflint	Jane Davies	Uwch Reolwr Diogelu a Chomisiynu
	Neil Ayling	Prif Swyddog Gwasanaethau Cymdeithasol
CBS Gwynedd	Morwena Edwards	Cyfarwyddwr Corfforaethol a Chyfarwyddwr Statudol Gwasanaethau Cymdeithasol
CBS Wrecsam	Mark Jones	Uwch Bennaeth Gwasanaeth Interim – Pobl Hŷn

## Prif gwestiynau'r adolygiad

- 16 I oleuo dyluniad y gwaith, byddwn yn cynnal gweithdy cwmpasu gyda'r cyrff a archwilir. Bydd hwn yn ein helpu i bennu ffocws yr adolygiad a hefyd i ymgorffori unrhyw newidiadau, risgiau neu ffactorau eraill y mae angen eu hystyried o ganlyniad i'r ymateb i bandemig COVID-19. Mae **Arddangosyn 1** yn nodi'r cwestiynau allweddol y byddwn yn ceisio eu hateb yn ystod yr adolygiad.

## Arddangosyn 1: prif gwestiynau'r adolygiad

Mae'r tabl isod yn nodi'r prif gwestiynau y byddwn yn ceisio'u hateb wrth gynnal yr adolygiad hwn.

### Lefel 1

- A yw'r partneriaid yn cydweithio'n effeithiol i ystyried newidiadau demograffig a phwysau allanol eraill wrth fynd ati'n strategol i gomisiynu gofal mewn cartrefi preswyl a nyrsio?

### Lefel 2

- A yw'r partneriaid wedi ymrwmo'n ffurfiol i'r dull strategol o gomisiynu gofal mewn cartrefi nyrsio a phreswyl?
  - A yw'r bwriad strategol yn cael ei danategu gan ddata cadarn a chynlluniau eglur ar gyfer y gweithlu?
  - A yw'r dull strategol yn newid yng ngoleuni pandemig COVID-19?
  - A yw'r dull strategol yn ystyried y risgiau i'r sector (er enghraifft ffioedd, y gweithlu, cynaliadwyedd cartrefi gofal, galw sy'n newid ac ansawdd gwasanaethau)?
  - A yw'r dull strategol yn ystyried mathau eraill o ofal?
- A yw'r partneriaid wedi adnabod a sicrhau ymrwymiad ar gyfer yr adnoddau y mae eu hangen i gyflawni'r strategaeth ac a oes ymrwymiad i reoli'r rhain trwy'r trefniant cyllideb gyfunol?
  - A yw'r ymrwymadau i ddarparu adnoddau ar gyfer y strategaeth yn gynaliadwy?
  - A oes atebolrwydd a chyfrifoldeb ar y cyd am ddarparu datrysiad strategol?
  - Pa mor dda y mae partneriaid yn ymdrin â rhwystrau (e.e. gwahaniaethau strwythurol, colli rheolaeth, comisiynu'n unigol neu mewn partneriaeth, safonau a disgwyliadau amrywiol)?
- A yw'r strategaeth ar gyfer comisiynu gofal mewn cartrefi nyrsio a phreswyl yn gyson â strategaethau allweddol eraill ac yn ateb gofynion deddfwriaethol?
  - A yw'r partneriaid yn ystyried dewisiadau eraill yn lle lleoliadau gofal mewn cartrefi nyrsio a phreswyl?
  - A yw'r partneriaid yn gweithio i ddeall unrhyw amrywiadau rhanbarthol amhriodol a mynd i'r afael â hwy (cost, cyfraniadau a mynediad at ystod o wasanaethau)?
  - A all partneriaid ddangos eu bod wedi ystyried deddfwriaeth allweddol fel rhan o ddylunio'r strategaeth?

- A yw newid mewn perthynas â chyflawni'r strategaeth hon yn cael ei reoli ac a adroddir arno'n effeithiol?
  - A yw strwythurau llywodraethu'r bartneriaeth o gymorth i gyflawni?
  - A oes trefniadau rheoli rhaglen yn eu lle i gyflawni'r newid strategol sy'n ofynnol?

## Allbwn

17 Bydd y canfyddiadau o'r adolygiad hwn yn cael eu nodi mewn adroddiad a fydd hefyd yn cynnwys argymhellion lle y bo'n berthnasol.

## Amserlen

### Arddangosyn 2: amserlen

Mae'r tabl isod yn nodi amserlen arfaethedig ar gyfer yr adolygiad yn y Cyngor.

Amserlen arfaethedig	
Gweithdy cwmpasu	29 Medi 2020
Cymeradwyo briff terfynol y prosiect gyda chynrychiolwyr o'r sesiwn gwmpasu	Hydref 2020
Cyfarfodydd sefydlu	Hydref/Rhagfyr 2020
Cyhoeddi briff y prosiect	Tachwedd 2020
Gwaith maes <ul style="list-style-type: none"> <li>• Adolygiadau o ddogfennau</li> <li>• Arsylwi ar gyfarfodydd</li> <li>• Cyfweiliadau</li> </ul>	Tachwedd/Rhagfyr 2020 Tachwedd 2020 – Ionawr 2021 Ionawr/Chwefror 2021 (oni bai y gofynnir am eu cynnal yn gynharach)
Cyhoeddi'r adroddiad	Ebrill 2021



# Atodlen gwaith maes

## Cyfweliadau

### Arddangosyn 3: cyfweleion

Mae'r tabl isod yn nodi'r rhestr gychwynnol o bobl yr hoffem gyfweled â hwy fel rhan o'r adolygiad hwn.

Enw	Teitl
Iwan Davies	Prif Weithredwr – Conwy (wedi'i ddewis i roi safbwynt Prif Weithredwr fel Swyddog Atebol)
Ynys Môn – Fôn Roberts Conwy – Jenny Williams * Sir Ddinbych – Nicola Stubbins Sir y Fflint – Neil Ayling Gwynedd – Morwena Edwards Wrecsam – Alwyn Jones	Cyfarwyddwyr Gwasanaethau Cymdeithasol (Prif swyddogion)  Byddwn hefyd yn siarad gyda Jenny Williams am safbwyntiau sy'n ymwneud â'r Gweithlu Rhanbarthol
Ynys Môn – Iola Richards Conwy – Claire Lister Sir Ddinbych – Phil Gilroy Sir y Fflint – Jane Davies Gwynedd – Aled Davies Wrecsam – Mark Jones	Penaethiaid Gofal Cymdeithasol i Oedolion
Betsi Cadwaladr: Chris Stockport  Ffion Johnstone Bethan Jones Rob Smith Kathryn Titchen Jane Trowman	Cyfarwyddwr Gweithredol gofal sylfaenol a chymunedol Cyfarwyddwr Ardal Cyfarwyddwr Ardal Cyfarwyddwr Ardal Pennaeth y CIC Arweinydd ar gyfer Cartrefi Gofal
Betsi Cadwaladr – Sue Hill/Rob Nolan	Cyfarwyddwr Cyllid/Cyfarwyddwr Cyllid Cynorthwyol

Enw	Teitl
<p>Ynys Môn – Marc Jones  Conwy – Andrew Kirkham  Sir Ddinbych – Steve Gadd  Sir y Fflint – Gary Ferguson  Gwynedd – Dafydd Edwards  Wrecsam – Mark Owen</p>	<p>Swyddogion Adran 151</p>
<p>Betsi Cadwaladr – Sue Green  Ynys Môn – Carys Edwards  Conwy – Phil Davies  Sir Ddinbych – Gary Williams  Sir y Fflint – Sharon Carney  Gwynedd – Geraint Owen  Wrecsam – Sue Robin</p>	<p>Pennaeth Adnoddau Dynol/cynllunio'r gweithlu</p>
<p>Sir Ddinbych – Bethan Jones-Edwards</p>	<p>Pennaeth Cydweithio Rhanbarthol</p>
<p>Ynys Môn – Y Cyngh. Llinos Medi  Conwy – Y Cyngh. Louise Gail Emery  Sir Ddinbych – Y Cyngh. Bobby Feeley  Sir y Fflint – Y Cyngh. Christine Jones  Gwynedd – Y Cyngh. Dafydd Meurig  Wrecsam – Y Cyngh. Joan Lowe</p>	<p>Aelod Arweiniol ar gyfer portffolio sy'n cynnwys Gofal Cymdeithasol i Oedolion</p>
<p>Ynys Môn – Y Cyngh. Aled Morris Jones  Conwy – Y Cyngh. Penny Andow  Sir Ddinbych – Y Cyngh. Jeanette Chamberlain-Jones  Sir y Fflint – Y Cyngh. Hilary McGuill  Gwynedd – Y Cyngh. Dewi Wyn Roberts  Wrecsam – Y Cyngh. Derek Wright</p>	<p>Cadeiryddion Pwyllgorau Craffu sy'n cynnwys Gofal Cymdeithasol i Oedolion</p>
<p>Teresa Owen</p>	<p>Cadeirydd y Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol</p>

Enw	Teitl
Judith Greenhalgh	Cadeirydd Grŵp Adfer Iechyd a Gofal Cymdeithasol Gogledd Cymru; a Phrif Weithredwr Sir Ddinbych
Morwena Edwards	Cadeirydd Bwrdd Comisiynu Rhanbarthol Gogledd Cymru
Catrin Perry	Rheolwr Busnes – Comisiynu
Grace Lewis-Parry	Is-Gadeirydd Bwrdd Comisiynu Rhanbarthol Gogledd Cymru
Betsi Cadwaladr – Jonathan Lloyd Ynys Môn – Emma Edwards Conwy – Fran Lewis Sir Ddinbych – Nicola Kneale Sir y Fflint – Jay Davies Gwynedd – Rhion Glyn Wrecsam – Suzanne Price	Swyddogion arweiniol – rheoli perfformiad a dadansoddi data
Ynys Môn – Sandra Thomas Conwy – Fran Lewis ac Emma Roberts Sir Ddinbych – Alan Smith Sir y Fflint – I’w Gadarnhau Gwynedd – Hawis Jones Wrecsam – I’w Gadarnhau	Rheolwyr newid a rhaglenni
Betsi Cadwaladr – Kamala Williams Ynys Môn – Fôn Roberts a Iola Richards Conwy – Fran Lewis ac Emma Roberts Sir Ddinbych – Phil Gilroy a David Soley Sir y Fflint – I’w Gadarnhau Gwynedd – Morwena Edwards ac Aled Davies Wrecsam – I’w Gadarnhau	Rheolwyr allweddol y bwrdd iechyd a chynghorau sy’n gyfrifol am gynllunio gwasanaethau’n strategol
Heléna Herklots CBE	Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru

Enw	Teitl
Mary Wimbury Clare Budden	Fforwm Gofal Cymru Cymdeithas Tai ClwydAlyn
Cynrychiolydd Gofalwyr ar y Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Y Cyngor Iechyd Cymuned	Llais y Bobl

## Gweithdai a grwpiau ffocws

### Arddangosyn 4: grwpiau ffocws a gweithdai

Mae'r tabl isod yn nodi'r rhestr o weithdai a grwpiau ffocws yr hoffem eu rhedeg gyda swyddogion a chynghorwyr fel rhan o'r adolygiad hwn.

Grwpiau ffocws a gweithdai
<b>Grŵp ffocws gyda detholiad o Aelodau'r Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol</b> – i archwilio ymwneud gwirioneddol a phosibl y BPRh â mynd ati'n strategol i gomisiynu lleoliadau mewn cartrefi nyrsio a phreswyl.
<b>Grŵp ffocws gydag aelodau o Fwrdd Comisiynu Rhanbarthol Gogledd Cymru</b> – i archwilio ymwneud gwirioneddol a phosibl y BCRh â mynd ati'n strategol i gomisiynu lleoliadau mewn cartrefi nyrsio a phreswyl.
<b>Grŵp ffocws gyda Chadeirydd Fforwm Gofal Cymru a hyd at 6 darparwr cartref gofal lleol – un o ardal pob cyngor</b> i archwilio manteision ac anfanteision posibl comisiynu strategol o safbwynt cartref gofal.
<b>Grŵp ffocws gyda chomisiynwyr strategol yng Nghynghorau Gogledd Cymru a'r Bwrdd Iechyd</b> – i ddeall y dull cyfredol o fynd ati'n strategol i gomisiynu lleoliadau mewn cartrefi nyrsio a phreswyl a chynlluniau ar gyfer y dyfodol.
<b>Gweithdy i gynllunio camau gweithredu gyda'r Bwrdd Comisiynu Rhanbarthol</b> – i ystyried canfyddiadau'r adolygiad a ffordd bosibl ymlaen.

## Grwpiau ffocws a gweithdai

**Gweithdy adborth gyda'r Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol** – i amlinellu'r canfyddiadau allweddol a'i gwneud yn bosibl herio a thrafod y dystiolaeth a gasglwyd yn ystod yr adolygiad.

## Arsylwi ar gyfarfodydd

### Arddangosyn 5: arsylwi ar gyfarfodydd

Mae'r tabl isod yn nodi'r rhestr o gyfarfodydd yr hoffem arsylwi arnynt yn ystod ein hadolygiad.

Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Gogledd Cymru

Bwrdd Comisiynu Rhanbarthol Gogledd Cymru

Grŵp Adfer Iechyd a Gofal Cymdeithasol

## Cais am ddogfennau

Cyn cyfweiliadau ac arsylwadau ar safleoedd, byddwn yn cynnal adolygiad o'r dogfennau a enwir isod. Fodd bynnag, byddem yn ddiolchgar pe gallech ddarparu unrhyw ddogfennau ychwanegol ar ein cyfer a allai fod yn berthnasol i'ch gwaith yn y maes hwn yn eich tyb chi. Nid yw'r rhestr yn gynhwysfawr ac efallai y gwneir ceisiadau am ddogfennau ychwanegol yn ystod yr adolygiad. Lle mae dogfennau ar y rhestr isod ar gael yn gyhoeddus ar wefan y Bwrdd Iechyd neu Gyngor, byddem yn ddiolchgar pe gallech ein cyfeirio at y dudalen lle gallwn ddod o hyd iddynt.

Byddwn hefyd yn adolygu'r canfyddiadau a'r dystiolaeth sy'n ymwneud â chynghorau o'n hastudiaeth flaenorol o lywodraeth leol a gynhaliwyd yn ystod 2013-14.

## Arddangosyn 5: mae'r tabl isod yn nodi'r dogfennau yr hoffem ofyn amdanynt i ddechrau fel rhan o'r adolygiad hwn

### Teitl y Ddogfen

- Adroddiadau perthnasol a diweddar gan Lywodraeth Cymru am gartrefu gofal.
- Adroddiadau perthnasol a diweddar gan Arolygiaeth Gofal Cymru am gartrefu gofal.
- Adroddiadau ar gynnydd sy'n ymwneud â 'Datganiad Siapio'r Farchnad – Cartrefi Gofal i Bobl Hŷn yng Ngogledd Cymru'.
- Adroddiadau Cynghorau/y Bwrdd Iechyd/y BPRh sy'n dangos ymrwymiad i, a chynnydd o ran gweithredu ar 'Ddatganiad Siapio'r Farchnad – Cartrefi Gofal i Bobl Hŷn yng Ngogledd Cymru'.
- Agendâu a chofnodion y Grŵp Comisiynu Rhanbarthol, y Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol a'r Grŵp Adfer Iechyd a Gofal Cymdeithasol.

## Cysylltiadau Archwilio Cymru

### Arddangosyn 6: Cysylltiadau Archwilio Cymru

Mae'r tabl isod yn nodi tîm Archwilio Cymru a fydd yn gweithio ar yr adolygiad hwn yn y cynghorau a'r Bwrdd Iechyd.

Teitl	Enw a manylion cyswllt
Cyfarwyddwr Archwilio Perfformiad	Huw Rees: <a href="mailto:Huw.Rees@archwilio.cymru">Huw.Rees@archwilio.cymru</a> Dave Thomas: <a href="mailto:Dave.Thomas@archwilio.cymru">Dave.Thomas@archwilio.cymru</a>
Rheolwr Archwilio Perfformiad	Jeremy Evans: <a href="mailto:Jeremy.Evans@archwilio.cymru">Jeremy.Evans@archwilio.cymru</a>
Arweinwyr Archwilio	Dave Wilson: <a href="mailto:David.Wilson@archwilio.cymru">David.Wilson@archwilio.cymru</a> Andrew Doughton: <a href="mailto:Andrew.Doughton@archwilio.cymru">Andrew.Doughton@archwilio.cymru</a> Gwilym Bury: <a href="mailto:Gwilym.Bury@archwilio.cymru">Gwilym.Bury@archwilio.cymru</a> Alan Hughes: <a href="mailto:Alan.Hughes@archwilio.cymru">Alan.Hughes@archwilio.cymru</a>

# Atodiad 1

## Hysbysiad Prosesu Teg: Archwilydd Cyffredinol Cymru

**Pwy ydym ni:** Mae Archwilydd Cyffredinol Cymru yn archwilio sut y mae cyrff cyhoeddus yn rheoli ac yn gwario arian cyhoeddus, ac mae **Archwilio Cymru** yn darparu staff ac adnoddau i'w alluogi i gyflawni ei waith.

**Swyddog Diogelu Data:** Ein Swyddog Diogelu Data yw Martin Peters a gellir cysylltu ag ef dros y ffôn ar 029 2032 0500 neu drwy'r e-bost: [swyddog.gwybodaeth@archwilio.cymru](mailto:swyddog.gwybodaeth@archwilio.cymru)

**Diben prosesu:** Rydym yn casglu eich gwybodaeth bersonol ar gyfer ein gwaith, sy'n cynnwys gwaith archwilio a gwaith proffesiynol, technegol neu weinyddol arall

**Y cyfreithiau perthnasol (sail gyfreithiol):** Rydym yn prosesu data personol yn unol â Deddf Diogelu Data 2018 a'r Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data (GDPR). Ein sail gyfreithiol ar gyfer prosesu yw'r pwerau a'r dyletswyddau statudol dan ddeddfwriaeth sy'n cynnwys Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004, Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2013, Deddf Llywodraeth Cymru 1998, Deddf Llywodraeth Cymru 2006, Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009; Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.

**Pwy fydd yn gweld y data?** Bydd yr Archwilydd Cyffredinol a thîm astudio Swyddfa Archwilio Cymru yn cael gweld yr wybodaeth a ddarperir gennych. Mae'n bosibl y byddwn yn rhannu rhywfaint o wybodaeth gydag uwch reolwyr y corff (cyrff) a archwilir ac mae'n bosibl y bydd yr adroddiad y byddwn yn ei gyhoeddi yn cynnwys rhywfaint o wybodaeth. O ran ein gwaith llywodraeth leol, mae'n bosibl y byddwn yn rhannu rhywfaint o ddata gyda rheoleiddwyr gwasanaethau cyhoeddus eraill, megis AGC ac Estyn, pan fo'r gyfraith yn caniatáu hyn.

**Am faint ydyn ni'n cadw'r data?** Byddwn yn cadw eich data am 7 mlynedd (neu 25 mlynedd os caiff ei gynnwys mewn adroddiad a gyhoeddir).

**Ein hawliau ni:** Mae gan yr Archwilydd Cyffredinol hawl i gael gwybodaeth, esboniad a chymorth dan baragraff 17 o atodlen 8 Deddf Llywodraeth Cymru 2006 a/neu adran 52 Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 a/neu adran 26 Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009. Gall fod yn dramgwydd troseddol, y gellir ei gosbi â dirwy, os yw rhywun yn methu â darparu gwybodaeth.

**Eich hawliau chi:** Mae gennych hawl i ofyn am gopi o'r wybodaeth bersonol gyfredol sy'n cael ei chadw amdanoch chi neu wrthwynebu prosesu data sy'n achosi niwed a gofid diangen a sylweddol. Cysylltwch â'r Swyddog Gwybodaeth, Swyddfa Archwilio Cymru, 24 Heol y Gadeirlan, Caerdydd, CF11 9LJ neu anfonwch neges e-bost i [swyddog.gwybodaeth@archwilio.cymru](mailto:swyddog.gwybodaeth@archwilio.cymru).

**Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth:** I gael rhagor o wybodaeth am gyfraith diogelu data neu i gyfleu cwyn ynglŷn â sut yr ydym yn ymdrin â'ch data personol, gallwch gysylltu â'r Comisiynydd Gwybodaeth yn: Information Commissioner's Office, Wycliffe House, Water Lane, Wilmslow, Cheshire, SK9 5AF, neu drwy anfon neges e-bost i [casework@ico.gsi.gov.uk](mailto:casework@ico.gsi.gov.uk) eu drwy ffonio 01625 545745.



Archwilio Cymru  
24 Heol y Gadeirlan  
Caerdydd CF11 9LJ

Ffôn: 029 2032 0500

Ffacs: 029 2032 0600

Ffôn testun: 029 2032 0660

E-bost: [post@archwilio.cymru](mailto:post@archwilio.cymru)

Gwefan: [www.archwilio.cymru](http://www.archwilio.cymru)

We welcome correspondence and telephone calls in Welsh and English.  
Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg a Saesneg.